**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

3 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni

Yn ein cyfarfod heddiw, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni a'ch llythyr at y Llywydd dyddiedig 29 Mehefin 2023.

Mae gennym bryderon difrifol am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Memorandwm hwn, yn anad dim oherwydd ei bod wedi cymryd 51 wythnos i osod y Memorandwm a chawsom ar ddeall eich bod wedi argymell i'r Pwyllgor Busnes ei fod yn pennu 15 Medi fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm, sy'n golygu y byddai gan y Senedd gwta dair wythnos waith ar gyfer gwaith craffu.

Hoffem eich gwahodd chi a'ch swyddogion i'n cyfarfod yr wythnos nesaf, ddydd Llun 10 Gorffennaf, fel y gallwn drafod y Memorandwm yn fanwl. Rydym yn awgrymu 12.30 tan 13.00 neu 16.45 tan 17.15. Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion ymateb i Glerc y Pwyllgor fel mater o frys.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, ac at y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir,

Alun Davies
Cadeirydd Dros Dro

Senedd Cymru
Welsh Parliament